

## Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Menna Jones (Llanefydd) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Rhys; a hefyd Edwin Jones (Peniel) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Beti. Gweddiwn y bydd y ddau deulu yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.

Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith. Cofiw'n yn arbennig am Doreen Evans ac Elwyn Roberts (Llansannan) a Nansi Jones (Henllan) sy'n parhau i gael gofal mewn gwahanol ysbytai. Treuliodd Gwynfor Evans (Saron), yn ogystal ag Ifan Batty, Iorwen Roberts a Haf Jones (Llansannan) beth amser yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd, ond mae'n dda cael adrodd eu bod nhw, a hefyd Dilys Jones (Nantglyn), wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cofiw'n hefyd y rhai hynny ohonoch sydd wedi cael triniaethau amrywiol yn ddiweddar ac am eraill sy'n aros llawdriniaeth. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan weddio y byddwch yn profi adferiad iechyd buan iawn ac y bydd daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Llongyfarchiadau i Lowri a Richard Jeffs (Llanefydd) ar enedigaeth mab bach – Elis Tomos. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Dymunwn fendith Duw ar Rhodri, ein gweinidog, yn ystod ei gyfnod Sabothol dros y 6 wythnos nesaf. Ein gweddi yw y bydd cael cyfnod i gael adnewyddiad ysbrydol a'i atgyfnerthu'n gyffredinol yn llesol iddo.

## Llais Bro Aled

Gan fod y rhan fwyaf o eglwysi'r ofalaeth wedi ail-agor erbyn hyn, **ni fyddwn o hyn ymlaen yn postio Llais Bro Aled** (ar wahân i ychydig eithriadau). Ar gyfer y rhai sydd ddim yn gallu derbyn copi ar ebost, bydd copïau ar gael yng nghapelir ofalaeth ar y Sul yn unol â'n trefniant cyn y cyfnod clo. Diolchwn i Siop Clwyd am eu parodrwydd i'n helpu unwaith eto ac i'r cynrychiolwyr o'r eglwysi fydd yn casglu'r pecynnau oddi yno. Rwy'n ddiolchgar hefyd bod y **Llyfrgell yn Ninbych** yn fodlon i ni adael copïau yn y cyntedd ar gyfer y cyhoedd, a bydd copïau ar gael hefyd yn y **Siop yn Llanfair Talhaiarn**, fel ag sydd eisoes yn bosib yn y **Siop yn Llansannan**. Os nad oes modd i chi dderbyn copi trwy unrhyw un o'r ffyrdd uchod, plis cysylltwch â Mair ac rwy'n siŵr y bydd posib gwneud trefniant arall.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – (Ar gyfnod Sabothol rhwng Hydref 1af – Tachwedd 12fed)

Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (13<sup>eg</sup>), os gwelwch yn dda.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3 Hydref 2021

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o Llais Bro Aled, byddaf ar gychwyn fy nghyfnod sabothol o 6 wythnos. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir gan Adran Gweinidogaethau Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac mi fyddaf yn ddiolchgar iawn petaech yn gweddio ar i'r cyfnod fod yn un adeiladol i mi o brofi adnewyddiad trwy'r Ysbryd Glân a cheisio arweiniad Duw. Yn naturiol, gallwch gysylltu â Mair os oes unrhyw anghenion bugeiliol penodol yn codi yn ystod yr wythnosau nesaf, ac mae fy niolch yn fawr i Mair am ei holl waith yn sicrhau bod trefniadau amgen mewn lle dros y cyfnod.

"Don't panic!" oedd y geiriau enwog yn *Dad's Army* ers talwm, a dyna'r neges a glywyd yn aml dros y penwythnos. Er nad oedd prinder tanwydd i ddechrau, newidiodd pethau'n sydyn wrth i giwiau ymddangos ger gorsafoedd petrol ledled y wlad. Tybed faint ohonom a gafodd ein heffeithio? Gawsoch chi eich dal mewn ciw tybed, neu'n waeth byth, aeth y tanc yn wag?

Yng nghanol yr holl drafod ynglŷn â phwy oedd ar fai, daeth unwaith eto'n amlwg mor ddibynnol yr ydym ar ein ceir. Neu'n fwy penodol, mor ddibynnol yr ydym ar danwydd sy'n gwneud i'n ceir weithio'n effeithiol! Gallwn fod â'r cerbydau mwyaf clyfar yn y byd, ond heb danwydd neu egni o ryw fath, fydd dim symud arnynt. Gwnaeth y cyfan i mi ystyried ein cyflwr ni fel dynoliaeth, a'n hangen dybryd am Dduw. Yn ôl Salm 63:

*'O Dduw, ti yw fy Nuw, fe'th geisiaf di; y mae fy enaid yn sychedu amdanat, a'm cnawd yn dihoeni o'th eisiau, fel tir sych a diffaith heb ddŵr.'*

Efallai nad yw dihoeni yn air y byddwn yn ei ddefnyddio o ddydd i ddydd, ond mae'r geiriadur yn ei ddiffinio fel mynd yn ddifywyd, ac onid dyna sy'n digwydd i gar heb danwydd? Ac mor hawdd yw i ninnau fodol'n ddifywyd yn ysbrydol wrth i ni anwybyddu'r Duw byw neu ei gadw led braich oddi wrthym? Diolch byth, mae yna newyddion da! Yn wahanol i orsafoedd petrol, nid yw'r Arglwydd yn methu darparu'r hyn sydd ei angen fwyaf arnom. Ac yn Iesu Grist y gwelwyd hynny fwyaf eglur. Trwy ei ddyfodiad atom a'i farwolaeth am ein pechodau, gorlifodd gras a chariad tuag at fyd syrthiedig. A thrwy Ei atgyfodiad gogoneddus, rhoddwyd gobaith tu hwnt i'r bedd i bawb mewn tywyllwch sy'n barod i droi at Iesu mewn ffydd ac edifeirwch. Sut mae tanc ysbrydol eich bywyd chi ar hyn o bryd? Wyddoch chi lle i droi? "Myfi yw bara'r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi." (Ioan 6:35)

Rhodri



## Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

### Y Fro

- Sul yma – Hydref 3<sup>ydd</sup> ➤ **Sgwrs a Gweddi** ar ZOOM am 6:00 yr hwyr. Cyfle anffurfiol i gymdeithasu, i rannu ac i weddio. Croeso i bawb. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Sgwrs a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)
- Nos Lun, Hydref 4<sup>ydd</sup> (a Dydd Gwener, Hydref 8<sup>fed</sup>) ➤ **Byw mewn Gobaith, Merched yr Hen Destament** – yr ail sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)
- Sul nesaf – Hydref 10<sup>fed</sup> ➤ **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.
- Sul canlynol – Hydref 17<sup>eg</sup> ➤ **Sgwrs a Gweddi** yng Nghefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.

### Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – Hydref 3<sup>ydd</sup> ➤ **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00** o dan arweiniad Dr Owain Edwards. (Nid oes angen rhoi enwau ymlaen llaw ar gyfer yr un o'r ddwy oedfa.) Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- Nos Lun, Hydref 4<sup>ydd</sup> ➤ **Ysgol Sul yn Festri Cefn Meiriadog am 7:00.** Croeso cynnes i aelodau newydd ddod i fyfyrio ar y Gair a mwynhau cymdeithas.
- Sul nesaf – Hydref 10<sup>fed</sup> ➤ **Gwasanaeth Diolchgarwch yn Llansannan am 10:00.**  
➤ **Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10:00** ar y thema 'Diolchgarwch'.  
➤ **Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghefn Meiriadog am 10:30.** (Nid oes angen rhoi enwau ymlaen llaw.)

- Sul canlynol – Hydref 17<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yn Llanfair am 11:00** o dan arweiniad Mr Steffan Job. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.

### Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – Hydref 3<sup>ydd</sup> ➤ **Oedfa Ddiolchgarwch yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Arawn Glyn. Enwau i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – Hydref 10<sup>fed</sup> ➤ Ni fydd oedfa heddiw.
- Sul canlynol – Hydref 17<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Gwion Dafydd. Enwau i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.

### Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – Hydref 3<sup>ydd</sup> ➤ **Oedfa Ddiolchgarwch yn Llanefydd am 9:30 ac yn Henllan am 11:00** yng nghwmni'r Parch. Aneurin Owen. Ar gyfer yr oedfa yn Llanefydd, rhowch eich enw i Mair B. Williams erbyn hanner dydd ar y Sadwrn blaenorol, os gwelwch yn dda, ac ar gyfer yr oedfa yn Henllan, enwau i Rhian (rhianfachgau@yahoo.com) neu Alys (alysowen11@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – Hydref 10<sup>fed</sup> ➤ **Ysgol Sul yn Henllan am 9:30.**  
➤ **Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac yn Groes am 11:00** o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda. (Nid oes angen rhoi enwau ar gyfer yr oedfa yn Groes.)
- Nos Lun – Hydref 11<sup>eg</sup> ➤ **Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Capel Henllan am 7:00** gyda'r Parch. John Owen yn pregethu. Enwau ymlaen llaw i Rhian (rhianfachgau@yahoo.com) neu Alys (alysowen11@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – Hydref 17<sup>eg</sup> ➤ **Ysgol Sul yn Llanefydd am 9:30.**  
➤ **Oedfa i'r Daith (Henllan, Groes, Llanefydd a Chefn Berain) yn Henllan am 10:30** o dan arweiniad Mr Gwydion Lewis. Enwau i Rhian (813870 / rhianfachgau@yahoo.com) neu Alys (816231 / alyowen11@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda.